



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2016 yn Neuadd y Dref,
Wrecsam

Yn bresennol:

Aelodau Craidd:

Rob Smith
 Lindsey Rawlinson
 Simon Smith
 Helen Paterson
 Cyng Mark Pritchard
 Lynda Powell
 Sian Beck
 Angela Tinkler
 Sue Price
 John Gallanders
 Ann Griffiths

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
 Cyfoeth Naturiol Cymru
 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Prifysgol Glyndŵr
 Heddlu Gogledd Cymru
 Iechyd Cyhoeddus Cymru
 Coleg Cambria
 Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
 Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Cadeirydd
 Is-Gadeirydd

Cyfranogwyr Cefnogi:

Michael Cantwell

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Hefyd yn Bresennol:

Rhys Horan
 Steve Bayley
 Mark Bowler
 Anna Miller

Partneriaethau Lleol
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

(eitem 2)
 (eitem 4)
 (eitem 5 & 6)
 (eitem 5 & 6)

Ymddiheuriadau:

Andy Jones
 Helen Odunaiya
 Y Cynghorydd Hugh Jones
 Sioned Rees

Y Gwasanaeth Prawf
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Llywodraeth Cymru

		Cam Gweithredu
1	Croeso a Chyflwyniadau	
	Cyflwynwyd pawb a chroesawodd y Cadeirydd bawb i 3ydd cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam.	
2	Rhaglen Twf Gwyrdd Cymru	

	<p>Cyflwynodd Rhys Horan o Bartneriaethau Lleol ar Raglen Twf Gwyrdd (cyflwyniad ynghlwm). Roedd hwn yn edrych am gyfleodd cydweithio i sefydliadau'r BGC er mwyn cefnogi'r rhaglen effeithiolrwydd adnoddau oedd yn ymwneud ag egni, rhannu asedion a thrafnidiaeth.</p> <p>Gallai fod cyfle i ddatblygu basged egni gwasanaeth cyhoeddus Cymreig, gan ddatblygu ar y gwaith yng ngogledd Cymru lle'r oedd awdurdodau lleol yn caffael egni ar y cyd.</p> <p>Mae'r gefnogaeth ar gael i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn unig – mae cefnogaeth baralel a ffrydiau ariannu ar gael i'r trydydd sector a chymunedau sy'n cael eu rheoli gan y rhaglen Egni Lleol.</p> <p>Gallai sefydliadau'r BGC rannu'r cynnydd yn yr ardal hon, hyd yn oed os nad yw'n un o flaenoriaethu yr asesiad lles ar hyn o bryd. Byddai cynnydd ar y themâu trawsbynciol o effeithlonrwydd egni, rhannu asedion a thrafnidiaeth gynaliadwy yn help wrth fynd i'r afael ar y materion o dlodi tanwydd, effeithlonrwydd adnodd a mynediad i wasanaethau a byddai'n helpu i sicrhau cynllun lles y BGC o amgylch ffyrdd o weithio Deddf Cenhedlaeth y Dyfodol.</p> <p>Siaradodd HP am Weithgor Asedau Cenedlaethol Cymru a phwysleisio fod Ysgrifennydd Y Cabinet wedi dweud y bydd rôl gynyddol i'r BGC wrth gyflwyno materion trawsbynciol megis egni, seilwaith ac adnoddau.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <p>Cytunwyd y byddai Steve Bayley, Pennaeth Tai a'r Economi CBSW yn derbyn y dasg o arwain grŵp, gan ddod â phartneriaid y BGC at ei gilydd i edrych ar y defnydd effeithiol o asedion cyhoeddus ar draws Wrecsam ac yn rhanbarthol.</p> <p>Gwahodd SB i adrodd yn ôl i gyfarfod mis Mehefin 2017 BGC gyda chynnydd interim.</p> <p>Pawb i anfon e-bost gydag enw cyswllt asedion eu sefydliad i MC erbyn 16/12/2016</p> <p>Edrych ar y dull arloesol mae BGC Cwm Taf wedi ei beilota ac ailedrych ar offeryn mapio GIS cafodd ei beilota yng Ngogledd Cymru.</p>	<p>SB</p> <p>HO</p> <p>Pawb/MC</p> <p>HO</p>
3	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2016	
	<p>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Eglurodd SS fod y ddogfen Tân ac Achub gyfeiriwyd ati yn 3.5 yn gyhoeddiad Llywodraeth Cymru sydd ar fin digwydd.</p> <p>Cytunwyd i ddsbarthu log camau gweithredu cyn bob cyfarfod BGC er mwyn gallu monitro a rheoli'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn fwy effeithiol, gan ei gwneud yn haws i gytuno ar y cofnodion.</p>	<p>HO</p>
4	Bwrdd Cyflwyno Partneriaethau 2, (PDB2) – Mae Wrecsam yn lle gydag economi gref, wydn a chyfrifol	

	<p>Cynigiodd Steve Bayley, Pennaeth Economi CBSW fod PDB2 yn cael ei ddiddymu, a rhoddodd sicrwydd fod gwaith parhaus yn cael ei wneud trwy fforymau rhanbarthol eraill gyda CBSW yn gwneud y gwaith craffu. Bydd hyn y lleihau dyblygiad</p> <p>Camau Gweithredu</p> <p>Pan gytunir ar Gynllun Lles BGC Wrecsam ym mis Mawrth 2018, bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu, ynghyd â rolau a swyddogaethau PDB1, a 3, er mwyn sicrhau cyflwyniad effeithiol o flaenoriaethau'r Cynllun Lles.</p> <p>Pan fydd canllawiau pellach ar Graffu'r BGC yn cael ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i BGC Wrecsam am ystyriaeth a chytundeb.</p>	<p>SB</p> <p>SB</p>
5	Asesiad Lles: Dadansoddiad o ddata	
	<p>Cyflwynodd Mark Bowler o Gyngor Sir Conwy'r eitem hon. Disgrifiodd fod y dasg wedi ymwneud â gweithio gydag ystod o sefydliadau, dewis y materion strategol sy'n berthnasol i Wrecsam, alinio hyn gydag ymgynghoriad y BGC a gwaith ymgysylltu a gosod y darganfyddiadau yng nghyd-destun amcanion Lles Cymru.</p> <p>Yn dilyn y cam ymgynghori nesaf, byddai'r BGC yn gyfrifol am flaenoriaethu'r materion hyn i nifer llai o amcanion Lles, ac yna gallai fod yn ddefnyddiol i gomisiynau ymchwil pellach i'r ardaloedd hyn.</p> <p>Dywedodd AM o ystyried yr amserlenni angenrheidiol i gyfieithu'r ddogfen ddrafft er mwyn ymgynghori yn y Flwyddyn Newydd, dim ond un wythnos arall fyddai i wneud newidiadau i'r asesiad.</p> <p>Mae JG ac AT wedi darparu adborth gwerthfawr eisoes.</p> <p>Ar ran y BGC, diolchodd y cadeirydd i Mark a Janine am eu gwaith caled iawn i gynhyrchu'r dadansoddiad data gofynnol i'r asesiad Lles.</p> <p>Cam Gweithredu</p> <p>Cytunwyd y byddai aelodau'r BGC yn gwneud sylwadau/awgrymiadau ychwanegol yn uniongyrchol at Mark.</p>	<p>Pawb</p>
6	Asesiad Lles: Ymateb i'r Ymgynghoriad	
	<p>Cyflwynodd Anna Miller o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr eitem hon (cyflwyniad wedi ei atodi). Mae'r ymgysylltiad wedi bod yn helaeth ac mae'r canlyniadau cychwynol wedi tueddu i ganolbwyntio ar wasanaethau'r Cyngor a chanol y dref fel lleoliad. Bydd angen i bartneriaid y BGC wneud mwy yn ystod camau diweddarach yr ymgynghoriad i ymgysylltu gyda'u cymunedau, defnyddwyr gwasanaethau, budd-ddeiliaid a chwsmeriaid.</p> <p>Bydd Cam 2 yr ymgynghoriad yn digwydd ym mis Ionawr 2017 er mwyn casglu</p>	

	<p>adborth ar yr asesiad lles drafft, gan ddod â'r dystiolaeth lles a'r canlyniadau ymgysylltu at ei gilydd. Bydd hwn yn llai dwys na cham 1, ond bydd angen i'r holl bartneriaid hyrwyddo a dosbarthu'r ymgynghoriad mor eang ag sy'n bosib, er mwyn sicrhau adborth cyfoethog.</p> <p>Bydd Cam 3 yr ymgynghoriad ym mis Ebrill/Mai/Mehefin 2017 ac yn casglu adborth ar restr hir o flaenoriaethau'r BGC ar gyfer y cynllun, yn seiliedig ar yr asesiad. Bydd angen i bartneriaid gydweithio er mwyn helpu i ddylunio a gweithredu'r ymgynghoriad hwn er mwyn i'r cam ymgynghori gael ei fframio'n gadarnhaol, gan adnabod y canlyniadau tymor hir ymarferol y gall sefydliadau'r BGC eu cyflawni.</p> <p>Mae'r amserlen wedi ei rhagnodi gan yr angen i'r BGC gynhyrchu cynllun lles erbyn mis Mawrth 2018, felly bydd rhaid i'r partneriaid gydweithio i sicrhau fod momentwm yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.</p> <p>Dyweddodd SS y byddai grŵp swyddogion BGC Gogledd Cymru yn ddefnyddiol er mwyn alinio amserlenni'r ymgynghoriadau ar draws y 4 BGC. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r cyrff rhanbarthol sy'n cael eu cynrychioli ar nifer o BGC.</p> <p>Nododd AG bod Swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn ymgymryd ag ymgynghoriad ar draws gogledd Cymru ar hyn o bryd.</p> <p>Teimlodd MP fod gwir gyfle i bartneriaid y BGC chwarae rhan lawn yng ngham nesaf yr ymgynghoriad.</p> <p>Trafododd aelodau'r BGC y ffaith fod y cyhoedd yn fwy tebygol o ymgysylltu pan fyddai bygythiad i'w lles. Nododd HP y byddai'n rhaid i'r BGC wella eu dealltwriaeth a chydabyddiaeth o werth y BGC er mwyn i gymunedau, partneriaid a budd-ddeiliaid weld y gwerth o gymryd rhan, gan gydweithio i wella lles ar y cyd.</p> <p>Ar ran y BGC, diolchodd y gadair i Anna a'r tîm yn CBSW am eu gwaith hynod o galed ar ymgynghoriad Y Wrecsam a Garem.</p> <p>Camau Gweithredu</p> <p>Bydd unrhyw wybodaeth ymgysylltu dderbyniwyd erbyn 8/12/2016 yn cael ei ymgorffori i'r Asesiad Lles Drafft fydd yn cael ei anfon allan am ymgynghoriad ym mis Ionawr 2017. Fel arall, bydd sylwadau a ffynonellau o ddata eilaidd yn cael ei gynnwys yn yr Asesiad Lles terfynol fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017.</p>	Pawb
7	Cefnogaeth ariannol BGC 2017-18	
	<p>Trafododd y cyfarfod chwech o opsiynau posib er mwyn sefydlu model ariannu ar gyfer y dyfodol i'r BGC gwrdd â gofynion cyllideb o £50k ar gyfer 2017/18.</p> <p>Yng nghyfarfod diwethaf y BGC archwiliwyd rhaid opsiynau pellach ar gyfer y gyllideb. Cafodd hwn ei ddosbarthu fel drafft ym mis Tachwedd felly fe ddylai pob aelod fod yn gyfarwydd gyda'r papur.</p>	

	<p>Cydnabyddir fod y pwysau cyllidebol hwn yn risg i'r BGC yn y tymor hir oherwydd y swm o waith statudol sydd rhaid ei wneud. Mae Sioned Rees, ein cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar y BGC wedi cytuno i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gan gydnabod fod gan rhai o'r partneriaid gylch gwaith Gogledd Cymru neu Gymru Gyfan ac o'r herwydd fe ddisgwylir iddynt gyfrannu at Fyrddau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill yn ogystal â Wrecsam, bydd rhaniad yn ôl os ydynt yn seiliedig yn Wrecsam, yn seiliedig yng Ngogledd Cymru neu'n seiliedig yng Nghymru Gyfan.</p> <p>Mae cyfarfod nesaf y BGC ym mis Mawrth 2017. Er mwyn cael fformiwla ariannu yn ei lle erbyn cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, mae angen cytundeb gan bartneriaid nawr.</p> <p>Codwyd nifer o bwyntiau allweddol:</p> <p>Ar hyn o bryd, heb fformiwla deg i rannu costau'r BGC rhwng y partneriaid, nid oes mecanwaith yn ei lle er mwyn ymdrin gyda gwariant newydd, megis costau cyfieithu'r asesiad lles drafft. Mae CBSW yn talu am y gwaith hwn ar hyn o bryd, er nad oedd cyllideb glir i wneud hynny.</p> <p>Credai CBSW y byddai ariannu'r BGC yn cael ei gwmpasu ar lefel rhanbarthol, felly nid oes dyraniad cyllideb gan CBSW ar gyfer ariannu'r BGC. Nid oes gan yr awdurdod lleol y gyllideb i danysgrifennu'r arian sydd ei angen ar y BGC.</p> <p>Mae angen eglurder am y cyfraniad gan y cyrff cenedlaethol yn nhermau amser ac adnoddau ariannol.</p> <p>Bydd angen i fformiwla ariannu gynnwys Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Mae Coleg Cambria eisiau chwarae ei rhan fel aelod llawn o'r BGC, ond nid oes gan y Coleg gyllideb ar gael i gyfrannu at y pot. Mae blynyddoedd ariannol Coleg Cambria a Glyndŵr yn wahanol i'r flwyddyn ariannol gonfensiynol felly ni ellir cwrdd â'r cais am gyllideb ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Prifysgol Glyndŵr yn eistedd ar dri BGC ac felly angen dealltwriaeth glir o'r amser a'r gofynion ariannol arnynt, cyn ymrwymo i raniad yn y gyllideb.</p> <p>Cytunodd y cyfarfod i'r mater gael ei gyfeirio at y bwrdd arweinyddiaeth rhanbarthol, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y BGC ac i egluro'r cyfraniad sydd ei angen gan y cyrff os ydynt ar sail Gymru gyfan, rhanbarthol neu awdurdod.</p> <p>Teimlir na allai'r BGC fforddio oedi ar wneud penderfyniad ar y gyllideb ac angen gwneud penderfyniad er mwyn rhoi model ariannu yn ei lle erbyn 2017/18 ac fe awgrymwyd fod y BGC yn ailymgynnull am hanner awr ym mis Ionawr 2017 i wneud penderfyniad.</p> <p>Y peryg o oedi'r penderfyniad yw nad yw'r BGC yn sefydlu model ariannu teg a chynaliadwy mewn digon o amser ar gyfer 2017/2018.</p>	<p>HO</p>
--	---	-----------

	<p>Camau Gweithredu Gan na chafodd yr eitem hon ei datrys, bydd angen ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y BGC.</p> <p>Cytunwyd i ofyn am gais fod Morag Olson, Prif Swyddog Gweithredu Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi'r opsiynau ariannu drafodwyd yn y bwrdd arweinyddiaeth rhanbarthol.</p>	RS
8	<p>Argymhellion craffu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Diogelu, Cymunedau & Lles, 6 Hydref 2016 • Cyfarfod Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu, 28 Medi 2016 	
	<p>Cam Gweithredu Cytunwyd fod yr argymhellion craffu yn cael eu gweithredu gan PDB3, gan adrodd yn ôl i'r BGC.</p>	HO
9	<p>Diweddariad Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael Gogledd Cymru i Symud • Llythyr Dr Kathrin Thomas • Liferau Newid Ymddygiad 	
	<p>Camau Gweithredu Cytunwyd y byddai PDB1 yn ymdrin gyda materion ICC ac yn adrodd yn ôl i'r BGC.</p>	HO
10	<p>Unrhyw Fater Arall</p>	
	<p>Darllenodd HP ddiweddariad ar ddyfodol Cymunedau Yn Gyntaf, ddarparwyd gan Sioned Rees, Llywodraeth Cymru:</p> <p>Gwnaeth Ysgrifennydd Y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddatganiad ar gymunedau cryf yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Hydref, gan nodi ei fod o blaid diddymu Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn raddol a sefydlu ymagwedd newydd i adeiladu cymunedau cryf. Mae Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, wedi ysgrifennu at bob BGC yn cynnig cwrdd â nhw i drafod yr ymagwedd yn y dyfodol tuag at adeiladu cymunedau cryf.</p> <p>Nid oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi cael ei wneud am Cymunedau Yn Gyntaf eto. Yn ei ddatganiad, fe gyhoeddodd Ysgrifennydd Y Cabinet gychwyn rhaglen eang o ymgysylltiad. Mae hyn wedi cychwyn eisoes ac mae'r gweithgareddau ymgysylltu yn driphlyg, gan edrych am safbwyntiau ar: ein ymagwedd newydd tuag at adeiladu cymunedau gwydn, rôl Cymunedau Yn Gyntaf i gyflwyno gwasanaethau a chefnogi cymunedau; ac agweddau ymarferol a gweithredol ein hymyraethau presennol, gan gynnwys cysylltiadau gyda rhaglenni Esgyn a Cymunedau i Waith. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ei ymrwymiad yn glir at sicrhau fod y ddwy raglenni gyflogi hon yn parhau.</p> <p>Bydd swyddogion yn ymgysylltu gyda phartneriaid cyflwyno a'r rhai hynny sydd â phrofiad gyda Cymunedau yn Gyntaf yn ogystal â'r cyhoedd ehangach a'r Trydydd Sector. Mae cyfarfodydd gyda budd-ddeiliaid a phartneriaid cyflwyno wedi cychwyn, y cyntaf ar 20 Hydref lle cafodd</p>	

	<p>swyddogion gyfarfod gyda Chyrff Cyflwyno Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf.</p> <p>Lansiwyd arolwg ar-lein 'Trafod Cymunedau' ar 24 Hydref a hyd heddiw, derbyniwyd dros 1300 o ymatebion. O fewn ardaloedd Cymunedau Yn Gyntaf, mae mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu gyda'r gymuned yn eu lle isoes, a bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r rhain yn llawn. Mewn ardaloedd eraill, byddwn yn cymryd mantais o fforymau presennol a bydd cyfarfodydd wyneb i wyneb a grwpiau ffocws.</p> <p>Rydym yn tynnu ar arbenigedd yr CGGC i sicrhau ein bod yn gallu ymgysylltu gyda chymaint o sefydliadau'r Trydydd Sector ag sy'n bosib, yn enwedig lle mae'r sefydliadau yma'n cefnogi a chynrychioli'r rhai mwyaf difreintiedig a'r rhai sy'n cael eu clywed yn anaml iawn. Mae hyn yn cynnwys sefydlu nifer o grwpiau gan gynnwys cyfarfod o amgylch bwrdd o sefydliadau cydraddoldeb a grwpiau ffocws gyda grwpiau gwahanol o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Rydym hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd.</p> <p>Camau Gweithredu Cytunwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fod cadeiryddion PDB1 a PDB3 yn mynychu cyfarfodydd y dyfodol o'r BGC er mwyn sicrhau cysylltiad effeithiol rhwng y grwpiau. • Fod Datblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl a'r adroddiad interim, Tachwedd 2016 gan PBC yn cael ei ddsbarthu am sylwadau gydag amserlen ar gyfer ymatebion. • Dylid anfon sylwadau i Gadeirydd PDB1 • I aelodau'r BGC ystyried sut mae trefniadau llywodraethu sefydliadol yn alinio gyda'r BGC fel galluogwr allweddol ar gyfer cyflawni gwelliannau i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau gofal heb ei drefnu, ac ymateb i Steven Harry, Cyfarwyddwr y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau gofal heb ei drefnu. Bydd y cais yn cael ei ddsbarthu am sylwadau. 	<p>HO</p> <p>HO</p>
--	--	---------------------

Dyddiadau Cyfarfodydd i ddod:

30.03.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU
01.06.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU
07.09.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU
07.12.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU